OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2946 (Cy.319)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Rhagfyr 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer pwerau a roddwyd gan adrannau 5(4) ac 17 o Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010(**1**).

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Diwygio) 2011. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 1 Ebrill 2012.

**Diwygiadau i Atodlen 2 i'r Mesur**

**2.** Mae Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Mesur wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(1) Ym mharagraff 5 o'r Atodlen yn lle'r tabl a geir yno rhodder y tabl a ganlyn—

| "**Anifail** | **Cyfradd uchaf yr elfen gynhyrchu ar gyfer pob anifail** |
|---|---|
| Gwartheg | £ 6.91 |
| Lloi | £ 0.50 |
| Defaid | £ 1.00 |
| Moch | £ 1.67". |

(2) Ym mharagraff 6 o'r Atodlen yn lle'r tabl a geir yno rhodder y tabl a ganlyn—

(**1**) 2010 mccc 3.

| "**Anifail** | **Cyfradd uchaf yr elfen gigydda neu allforio ar gyfer pob anifail** |
|---|---|
| Gwartheg | £ 2.12 |
| Lloi | £ 0.50 |
| Defaid | £ 0.32 |
| Moch | £ 0.40". |

*Alun Davies*
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru

6 Rhagfyr 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010.

Mae erthygl 2 yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Mesur drwy amnewid y tablau ynghylch yr elfennau ym mharagraff 5 a 6.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar yr effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei gael ar gostau busnes ac ar y sector gwirfoddol.